## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Cyflwyniad a'r sail resymegol dros gynlluniau tymor canolig integredig**

Mae cynhyrchu *Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2022-2025* yn ffordd o amlinellu'r gofynion ar GIG Cymru i gefnogi datblygiad eu cynlluniau.

Mae'r gofyniad i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig yn deillio o adran 175 o Ddeddf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae Adran 175(1) o Ddeddf 2006 yn mynnu bod byrddau iechyd yn sicrhau eu bod yn "adennill" eu gwariant o'r cyllid a roddir iddynt dros gyfnod cyfrifyddu o dair blynedd, yn destun rhywfaint o oddefgarwch a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 175(2) yn mynnu bod Gweinidogion Cymru'n rhoi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi cynllun sy'n nodi sut byddant yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 175(1). Er mai dim ond i fyrddau iechyd y mae adran 175 yn berthnasol mae Gweinidogion Cymru, gan ddefnyddio'r pwerau i gyfarwyddo ymddiriedolaethau'r GIG yn adran 19(1) o Ddeddf 2006, wedi gorfodi'r un rhwymedigaethau adrodd ar ymddiriedolaethau'r GIG i bob pwrpas.


Mae'r fframweithiau hyn ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn darparu golwg ymlaen o dair blynedd. Mae pob fframwaith yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r gofynion diweddaraf i'r GIG yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn darparu'r cyd-destun a'r dirwedd amgylcheddol y dylid eu defnyddio fel sail wrth ddatblygu cynlluniau'r GIG.

Ym mis Mawrth 2020, cafodd proses y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ei hoedi'n ffurfiol o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19. Cafodd fframwaith y Cynlluniau ei ddisodli â gofyniad am gynlluniau gweithredol chwarterol yn 2020-2021 ac am gynllun blynyddol yn 2021-2022. Roedd trefniadau interim y cynlluniau chwarterol a blynyddol yn adlewyrchu pa mor anodd oedd hi i sefydliadau gynhyrchu cynllun tair blynedd cytbwys, a chael cymeradwyaeth y bwrdd ar ei gyfer.

Fodd bynnag, gan fod rhaid cyflawni'r ddyletswydd dair blynedd i 'adennill' erbyn mis Mawrth 2022, mae'r Gweinidog wedi nodi ei bod yn bwysig adfer y cylch cynllunio ac wedi cytuno i gyhoeddi *Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2022-2025*.

Yn ddiweddar, mae'r Gell Cyngor Technegol wedi diweddaru ei chanllawiau ar y niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae 'pum niwed cydnabyddedig' bellach (4 oedd o'r blaen). Mae'r diagram isod yn dangos bod niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn gallu digwydd mewn pum prif ffordd. Mae'r Fframwaith wedi ystyried y pum niwed ac mae'n cyfarwyddo byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliadau cenedlaethol eraill i fynd i'r afael â'r rhain, a'u lliniaru, wrth ddatblygu eu cynlluniau.

**Ffigur 1: Y pum niwed**




Wrth ddatblygu Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2022-2025 (y "Fframwaith"), mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, ac yn benodol y pum ffordd o weithio a nodir isod:

### Y tymor hir

Mae'r Fframwaith yn ymwneud â chyfnod o dair blynedd, 2022-2025. Mae'n bwysig ystyried y tymor hirach wrth ei ddatblygu. Mae hynny'n golygu y bydd y prif bynciau a gofynion i'w cynnwys yn y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn rhai a fydd yn parhau i gael effaith am flynyddoedd lawer, fel cyflwyno atebion arloesol a digidol, buddsoddi ariannol, a threfniadau cryfach ar gyfer partneriaethau, llywodraethu a chynllunio.

Dyma rai o'r tueddiadau tymor hir sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Fframwaith hwn:

- Mae'r **newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio** yn ffactorau pwysig sy'n cael sylw gofalus yn y Rhaglen Lywodraethu newydd. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd newydd a'r portffolio pwrpasol yn golygu bod modd canolbwyntio ar gyflawni'r ymrwymiad i gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, a Chymru carbon niwtral erbyn 2050. Mae'r Fframwaith hwn yn esbonio'n glir bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar draws y GIG yng Nghymru yn gorfod ystyried eu heffaith ar y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio, ac ar gleifion a'u hiechyd a llesiant. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd y Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru. Mae'n amlinellu nodau a chamau gweithredu y mae angen i sefydliadau'r GIG eu cyflawni a'u cymryd er mwyn cyfrannu at y nod hollbwysig hwn.
  Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru

- Yn ogystal â'r effaith ar gleifion, mae **iechyd a llesiant staff** yn ffactor pwysig arall i'w ystyried. Nid yw'r GIG yng Nghymru yn ddim heb ei staff ymroddedig a drwy gydol y 18 mis diwethaf maen nhw wedi rhoi popeth i'r swydd, gan fynd yr ail filltir. Mae rhai wedi talu'r pris eithaf. Mae eraill wedi gweithio oriau hir ac wedi cadw draw o'u teulu er mwyn ceisio diogelu'r cleifion. Wrth inni ddysgu byw gyda COVID, a'i amrywiolynnau, rhaid inni sicrhau bod iechyd a llesiant staff yn ystyriaeth hollbwysig.

- Mae **iechyd meddwl a llesiant pobl** ledled Cymru eisoes yn nod hirdymor pwysig. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dangos ei bod wedi ymrwymo i roi sylw i iechyd meddwl ym mhob rhan o gymdeithas drwy isafswm gwariant wedi'i ddiogelu o £783m yn 2021-22. Mae cydnabyddiaeth bod ynysigrwydd cymdeithasol a chyfyngiadau eraill a roddwyd ar gymdeithas wedi effeithio ar bobl o bob oed, ond mae plant a phobl ifanc wedi cael trafferth arbennig gyda'r mater hwn yn ystod y pandemig. Buddsoddiad ychwanegol yng ngwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc

- Yn 2021, buddsoddwyd dros £9m i gefnogi **iechyd meddwl plant a phobl ifanc**. Mae'r Rhaglen Lywodraethu newydd yn amlinellu'r angen i flaenoriaethu buddsoddiad yn y maes hwn ac i hybu dull 'dim drws anghywir' er mwyn lleihau'r stigma.

- Daeth y **ddyletswydd economaidd-gymdeithasol** i rym yng **Nghymru** ar 31 Mawrth 2021. Ei nod yw gwella prosesau gwneud penderfyniadau a helpu'r rhai sydd dan anfantais economaidd-**gymdeithasol**. Mae'n rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, a bydd yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud. Mae'n sail allweddol i ffocws a chyfeiriad GIG Cymru pan fydd yn datblygu ei gynlluniau.

- Roedd **technoleg** wedi ein helpu i weithio o bell drwy gydol y pandemig. Galluogodd pobl heb swyddi rheng flaen i weithio gartref a datblygwyd ffyrdd newydd o weithio er mwyn cefnogi staff a chleifion. Cafodd mwy o apwyntiadau ar-lein rhwng cleifion a chlinigwyr eu cefnogi, a hynny gyda meddygon teulu ym maes gofal sylfaenol ac ymgynghorwyr ym maes gofal eilaidd. Hefyd, roedd datblygiad y feddalwedd Consultant Connect yn golygu

bod clinigwyr yn gallu cael cyngor gan ei gilydd er mwyn cyflymu'r broses gwneud diagnosis a'r dewisiadau triniaeth. Gellir cyflawni mwy drwy gyflwyno technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio.

**Atal**

Mae'n bwysig ystyried atal wrth ddatblygu'r Fframwaith. Mae'n golygu bod y prif bynciau a gofynion a amlinellir yn y Fframwaith yn galw am weithredu mewn cysylltiad ag atal cyflyrau arbenigol, yn ogystal â COVID-19.

- **Cyfraddau heintio COVID-19 a'r amrywiolynnau dilynol.** Mae'r senario waethaf sy'n rhesymol ei thybied wedi cael ei modelu'n rheolaidd ers mis Mawrth 2020 ac wedi dylanwadu ar gyngor a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru wrth ddelio â'r pandemig. Mae cyngor ac arbenigedd Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau Llywodraeth y DU (SAGE) a'r Gell Cyngor Technegol yng Nghymru, ynghyd â'r cyfraddau heintio fesul 100,000 o'r boblogaeth, sy'n cael eu hadolygu dros gyfnod saith diwrnod, oll yn dylanwadu ar ddull y Llywodraeth o fynd i'r afael â COVID a'i effeithiau.

- Mae COVID-19 yn bandemig. Mae pob gwlad yn y byd wedi teimlo ei effeithiau – o ran y rhai sy'n dioddef o'r feirws a'r rhai a oedd yn dioddef o gyflyrau eisoes, sydd wedi wynebu oedi a sgileffeithiau. Bydd yn rhaid i'n GIG ddelio â COVID-19 a'i amrywiolynnau am gryn amser eto. Mae **COVID hir** yn derm trosfwaol am y cyflyrau cynhenid y mae'r rhai sydd wedi dal y feirws yn parhau i'w dioddef. Mae'r gydnabyddiaeth o'r effeithiau gwanychol hyn yn tyfu. Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol raglen 'Adferiad' gwerth £5m i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o 'COVID hir'.
  Conffederasiwn GIG Cymru yn croesawu gwariant ychwanegol

- Mae'r fframwaith yn cynnwys yr angen i atal niwed drwy ymyriadau uniongyrchol, fel **sgrinio**. Mae angen ailddechrau sgrinio am ganser a chyflyrau eraill yn llawn i sicrhau bod modd gwneud diagnosis yn gynnar, a bod cleifion yn cael triniaeth a chymorth yn gynnar.

- Er ei fod yn cael ei hystyried yn hanfodol, mae'r **rhaglen frechu ac imiwneiddio i blant** wedi wynebu oedi o ganlyniad i COVID-19. Roedd y mesur cadw pellter cymdeithasol a rhai eraill i reoli heintiau yn golygu bod llai o blant yn gallu cael eu gweld. Mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn glir bod angen i'r rhaglen hon ailddechrau'n llawn i ddiogelu'r garfan hon o blant rhag clefydau difrifol adeg plentyndod.

- Mae **rhaglen frechu COVID-19** Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn. Erbyn mis Mehefin 2021, roedd dros 2m o bobl wedi cael eu dos cyntaf o frechlyn COVID-19 a dros 1.5m wedi cael y ddau ddos. Mae'r rhaglen wedi cael ei chyflwyno'n gyflymach, a mwy o bobl wedi manteisio arni, o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae'r fframwaith yn cydnabod yr angen i barhau i fod yn wyliadwrus drwy'r rhaglen frechu i mewn i 2022. Dechreuodd y rhaglen pigiad atgyfnerthu yn hydref 2021 ac efallai y bydd angen brechu yn erbyn

amrywiolynnau eraill yn y dyfodol. Diweddariad Rhaglen Frechu COVID-19 21 Medi 2021

- Cafodd y strategaeth **Profi, Olrhain a Diogelu** ei diwygio, ei diweddaru a'i chyhoeddi ym mis Mehefin 2021. Cafodd y cynnig olrhain cysylltiadau presennol ei ddylunio i ymateb i heriau cynnar y pandemig. Nawr, mae angen inni ystyried a gweithredu model cyflawni tymor hirach, addas i'r diben, a fydd yn datblygu wrth inni symud i fyd ar ôl y pandemig. Profi, Olrhain a Diogelu

- Cyfeirir at **ffyrdd iach o fyw** yn y fframwaith. Mae cydnabyddiaeth bod cymorth i fynd i'r afael ag ysmygu, gordewdra a chaethiwed yn arwyddocaol o ran atal unigolion rhag niweidio eu hiechyd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae'n bwysig sicrhau bod cymorth ar gael i bob claf er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli mewn sawl rhan o Gymru.

- Mae **anghydraddoldebau iechyd** yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Er eu bod yn feysydd lle roedd anghydraddoldeb i'w weld cyn COVID, mae'r pandemig wedi dwysáu'r sefyllfa. Yng Nghymru, roedd y gyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran oherwydd COVID am y 14 mis rhwng mis Mawrth 2020 ac Ebrill 2021 yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig bron ddwywaith y gyfradd marwolaethau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Er bod patrwm tebyg i'w weld ar gyfer marwolaethau o bob achos, mae'r gwahaniaeth ar gyfer marwolaethau oherwydd COVID yn fwy. Marwolaethau oherwydd COVID-19 yn ôl ardal leol ac amddifadedd – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk).

- Mae COVID-19 wedi dwysáu'r problemau a gwyddwn mai'r rhai o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oedd wedi teimlo'r effaith fwyaf yn sgil y feirws, o ran salwch difrifol a marwolaeth. Oherwydd hyn, mae'r Fframwaith yn cyfeirio at ***COVID-19: Strategaeth Brechu Teg i Gymru***, sy'n ymdrechu i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad teg at raglen frechu COVID-19, yn ogystal â chyfle teg i gael eu brechu er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd a'u cymunedau rhag niwed y feirws. Strategaeth a diweddariadau brechu COVID-19

Mae angen i sefydliadau sicrhau bod y pynciau hyn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a'u bod yn cael mwy o sylw gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau. Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ffactorau sy'n Dod i'r Amlwg Fel Sbardunau

i Fregusrwydd o ran Annhegwch Iechyd yng

Nghyd-destun COVID-19

**Integreiddio**

Mae'n bwysig ystyried integreiddio. Mae angen adeiladu gwasanaeth di-dor, integredig sy'n cael ei gydnabod gan Cymru Iachach, a gafodd ei ddiwygio ym mis Mawrth 2021. Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Weithredoedd Iachach Cymru

Mae sawl ffurf ar integreiddio.  Gall fod mewn cysylltiad ag iechyd a gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol ac eilaidd, a drwy ystod ehangach o bynciau sy'n gallu effeithio ar iechyd pobl.

- Nid dim ond ymyriadau iechyd sy'n dylanwadu ar iechyd poblogaeth Cymru. Dylanwadir arno i'r un graddau gan **benderfynyddion ehangach iechyd**, ee tai, trafnidiaeth, yr amgylchedd, addysg ac ati. Bydd angen i sefydliadau iechyd weithio gyda'u partneriaid a'u rhanddeiliaid i sicrhau bod y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd ar draws y meysydd hyn hefyd yn creu buddion amryfal; er enghraifft, bod cysylltiadau trafnidiaeth yn sicrhau nad yw pobl yn ynysig a'u bod yn gallu cael gafael ar gyfleoedd gwaith, dysgu a hamdden, tai o ansawdd da, ac amgylcheddau sy'n gwella llesiant pobl. Gofynnwyd am safbwyntiau a chyfraniadau cyd-weithwyr polisi ar draws portffolios Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Fframwaith hwn.

- Mae cydnabyddiaeth o **'sefydliadau angor'** wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar**.** Mae erthygl 'Anchors in a Storm' y Sefydliad Iechyd yn dangos pa mor bwysig yw sefydliadau angor o ran cefnogi a meithrin y cymunedau y maen nhw'n rhan ohonynt. Y ddwy brif wers yw mynd i'r afael yn bwrpasol ag anghydraddoldebau iechyd a chydgynhyrchu gyda chymunedau. Mae'r ddwy wrth galon ein hegwyddorion a dylid eu hadlewyrchu yn y cylch Cynlluniau Tymor Canolig Integredig nesaf.  Y Sefydliad Iechyd – Anchors in a Storm

- Mae **effaith cyflogaeth** ar iechyd unigolion yn hollbwysig. Mae effaith newidiadau mewn cyflogaeth yn sgil COVID-19, dealltwriaeth ar gyfer ymyriadau i ddylanwadu ar iechyd, a thegwch iechyd yn feysydd allweddol. Gall mynd i'r afael â'r rhain leihau anghydraddoldebau iechyd.
Gwaith teg, da – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Cyfarwyddir sefydliadau i sicrhau bod y pynciau hyn yn cael sylw yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a'u bod yn cael mwy o sylw gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau.

### Cydweithio

Mae'n golygu bod y prif bynciau a gofynion yn gofyn am weithio ar y cyd a thrafod â sefydliadau partner, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, i sicrhau bod penderfyniadau'n berthnasol ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd pobl.

Mae disgwyl y bydd COVID-19 a'i amrywiolynnau yn dal ar led yn ein cymunedau am gryn amser, a bydd angen i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid gydweithio i sicrhau bod ei ledaeniad a'i effaith mor isel â phosibl.

- Mae'n bwysig bod sefydliadau iechyd sy'n cynhyrchu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn cydweithio â sefydliadau eraill, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol.  Bydd hyn drwy **ddulliau ffurfiol** yn aml, fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth

Rhanbarthol, Byrddau'r GIG, a threfniadau awdurdodau lleol ac ati, i sicrhau cysondeb rhwng yr holl wahanol gynlluniau.

- Mae'r fframwaith Cynlluniau Tymor Canolig Integredig wedi cael ei ddatblygu a'i drafod yn rheolaidd â **rhanddeiliaid allweddol** fel cyd-weithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwyr GIG Cymru, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cyfarwyddwyr Cynllunio, a drwy rwydweithiau â chyd-weithwyr gofal cymdeithasol ac mewn adrannau ehangach o'r Llywodraeth lle mae pynciau'n cyfarfod, fel economi, yr amgylchedd, addysg ac ati.

- Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol oll wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith, a'r cyfarwyddiadau a'r blaenoriaethau mae'n eu pennu.

Cyfarwyddir sefydliadau i sicrhau bod y pynciau hyn yn cael sylw yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a'u bod yn cael mwy o sylw gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau.

## Cyfranogiad

Mae sefydliadau GIG Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn ymwybodol o broses cylch cynllunio'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Er bod rhai grwpiau a gweithwyr proffesiynol wedi gallu cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn, y disgwyl yw y bydd sefydliadau'n gallu cynnwys cyd-weithwyr ymhellach wrth ddatblygu eu Cynlluniau.

Mae'n bwysig bod sefydliadau'n deall yr hyn sy'n bwysig i'r bobl y mae'r pynciau yn y Fframwaith yn effeithio arnynt, a sut gallant gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n lliniaru'r effeithiau.

## Effaith

Mae'r Fframwaith yn cyflawni'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi 'Cyfarwyddiadau' i'r GIG yng Nghymru o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a'r dyletswyddau diwygiedig yn Neddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae'r Fframwaith yn darparu cyd-destun ac yn y cyd-destun hwn y mae disgwyl i fyrddau iechyd a sefydliadau eraill y GIG fynd i'r afael â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu yn ystod 2022-2025.

Mae'r Fframwaith a'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig sy'n deillio ohono yn ofynion statudol. Bydd y Fframwaith yn rhoi sicrwydd a chyfeiriad ynghylch yr hyn sydd ei angen i gadw gwasanaethau'n gydgysylltiedig ac i gefnogi cleifion a staff dros y tair blynedd nesaf.

Bydd y Fframwaith yn cael ei gyhoeddi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn darparu negeseuon clir i'r cyhoedd, aelodau o Senedd Cymru a rhanddeiliaid ynghylch y ffactorau strategol a gweithredol allweddol. Hwn fydd sylfaen y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig o hyn ymlaen.

Bydd yn ddogfen arwyddocaol i Brif Weithredwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ar draws GIG Cymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ac yn rhoi arweiniad i sefydliadau ar ddatblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Er nad yw'n gwbl ragnodol, mae'n ffordd i'r Gweinidog o gyfleu gofynion a blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y cyfnod dan sylw.

**Costau ac Arbedion**

Ni fydd costau ariannol yn gysylltiedig â chwmpasu a datblygu'r Fframwaith gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Mae buddsoddiad sylweddol eisoes wedi'i wneud mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod 2020-21 o ganlyniad i bandemig COVID-19:

- Dyrannwyd dros £1.3bn i gefnogi ymateb y GIG i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys yr £800m o gyllid sefydlogi i GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020.
- £45m i weithredu'r Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu
- £62.7m drwy Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol, i gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion.
- £40m i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol

Ym mis Medi, buddsoddwyd ymhellach yn y rhaglen adfer. Roedd angen gwneud hyn i fynd i'r afael â'r llwyth a oedd wedi cronni o ran gwneud diagnosis a gofal wedi'i gynllunio. Hyd yma:

- Buddsoddwyd £248m i gefnogi adferiad GIG Cymru, gan gynnwys COVID hir ac iechyd meddwl plant

Bydd sefydliadau'n defnyddio'r cyllid annibynnol hwn, yn ogystal â'u dyraniadau arferol, i ddatblygu eu cynlluniau a'u rhoi ar waith.

**Mecanwaith**

Ni chynigir unrhyw ddeddfwriaeth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith hwn, felly nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

- Caiff y Fframwaith ei gyhoeddi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn hydref 2021 i roi cyfarwyddyd i GIG Cymru ar y ffordd y mae'n rhaid iddo gynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae'r Fframwaith yn atgyfnerthu'r cyfrifoldeb statudol sydd ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i gynhyrchu cynlluniau cytbwys, tair blynedd.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r fframwaith cynllunio hwn wedi cael ei gynhyrchu i ddarparu'r 'cyfarwyddiadau' i'r gwasanaeth, i baratoi sefydliadau'r GIG ar gyfer cael Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y tair blynedd nesaf, 2022-2025.

Mae'r fframwaith yn arwydd o ddychwelyd i'r cylch cynllunio arferol ac yn nodi'r gofynion i sefydliadau'r GIG daro cydbwysedd rhwng yr ymateb parhaus i COVID-19 ac adfer o'i effaith.

Mae'r fframwaith yn gyhoeddiad Llywodraeth Cymru sydd wedi'i ysgrifennu i amlinellu blaenoriaethau a gofynion y GIG yng Nghymru.  Cytunodd y Gweinidog ar y dull gweithredu hwn ym mis Gorffennaf 2021. Mae rhanddeiliaid wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddychwelyd i'r fframwaith Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-2025, ac am y gwaith o'i gynhyrchu.

Bydd y fframwaith yn cael ei ddatblygu drwy drafodaethau â chyd-weithwyr ar draws adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru, arweinwyr proffesiynol ac uwch gyd-weithwyr yn y gwasanaeth fel Prif Weithredwyr y GIG, Cyfarwyddwyr Cynllunio, Cyfarwyddwyr Cyllid, ac ati.

Mae disgwyl i sefydliadau'r GIG gydweithredu a chynnwys eu rhanddeiliaid eu hunain yn eu hymateb i'r fframwaith. Mae hyn yn cynnwys plant a'u cynrychiolwyr; pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol y Gymraeg; a phobl eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dylai'r fframwaith gael effaith gadarnhaol ar bobl ledled Cymru. 'Cyfarwyddiadau' y Gweinidog i'r GIG yw'r fframwaith. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

Mae'n amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i fyrddau iechyd a sefydliadau eraill y GIG ei ystyried wrth ddatblygu eu Cynllun Tymor Canol Integredig ar gyfer 2022-2025. Ni fydd sefydliadau'n dechrau o'r dechrau. Byddant yn adeiladu ar y datblygiadau y maen nhw eisoes wedi'u gwneud yn eu Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2019-2022, cyn pandemig COVID-19, ac mewn ymateb i Gynllun Diogelu'r Gaeaf a'r Cynlluniau Gweithredu Chwarterol yn 2020-21, a'r Cynlluniau Blynyddol a ddatblygwyd ar gyfer 2021-22. Mae dychwelyd i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig yn arwydd o'r cam nesaf ar y daith adfer.

Mae angen i fyrddau iechyd gynllunio i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth a gwneud hynny heb ystyried oedran, hil, crefydd ac ati. Mae'r fframwaith yn esbonio'n

glir bod angen i sefydliadau sicrhau bod gan bobl fynediad cyfartal at ddiagnosis a thriniaeth ar draws y pum niwed (gweler adran 1).

Mae cydnabyddiaeth bod COVID-19 wedi effeithio'n niweidiol ar rai grwpiau o bobl. Roedd tystiolaeth o anghydraddoldebau iechyd cyn pandemig COVID-19, ond mae hwnnw wedi'u dwysáu. Dylai'r fframwaith effeithio'n gadarnhaol ar y grwpiau hyn gan ei fod yn tynnu sylw byrddau iechyd a sefydliadau'r GIG at anghydraddoldebau iechyd a thegwch gwasanaeth, gan amlinellu disgwyliad bod eu Cynllun Tymor Canolig Integredig yn canolbwyntio ar y meysydd hyn.

Blaenoriaethau Gweinidogol yw sylfaen y fframwaith ac maen nhw'n cyfarwyddo'r GIG yng Nghymru i fynd i'r afael â'r meysydd hyn ar frys:

- **CYNNAL EIN HYMATEB I COVID-19**
- **ADFERIAD Y GIG**
- **GWEITHIO OCHR YN OCHR Â GOFAL CYMDEITHASOL**
- **CYMRU IACHACH – STRATEGAETH AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**
- **DISGYBLAETH ARIANNOL GIG CYMRU**
- **IECHYD MEDDWL – CLINIGOL A'R GYMDEITHAS EHANGACH**
- **CEFNOGI'R GWEITHLU IECHYD A GOFAL**
- **IECHYD Y BOBLOGAETH A THEGWCH IECHYD**

Ynghyd â'r meysydd hyn, mae'r newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn feini prawf pwysig.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig**

- Yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu;

- Yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol

Mae Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi'r ystadegau iechyd canlynol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant poblogaeth Cymru.

Dim ond 10% o iechyd sy'n cael ei benderfynu gan y gwasanaethau iechyd sydd ar gael mewn gwlad. Mae'r gweddill yn dibynnu ar benderfynyddion ehangach fel amodau byw, amddiffyniadau

Dros y degawd diwethaf mae anghydraddoldebau iechyd wedi cynyddu ar y cyfan, yn ogystal â'r amser mae pobl yn ei dreulio mewn iechyd gwael.

Yn 2018, roedd 74% o wariant y GIG yng Nghymru ar wasanaethau acíwt ac 20% ar wasanaethau trydyddol ac atal (4% ar atal eilaidd a 2% ar atal trydyddol)

Mae anawsterau iechyd meddwl ymysg plant a phobl ifanc ar gynnydd. Hefyd mae llesiant meddyliol yn salach ymysg oedolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

Mae'r disgwyliad oes iach yn is i'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac nid oes arwyddion clir bod y bwlch yn cau

Nod y fframwaith yw cyfarwyddo'r GIG yng Nghymru i roi sylw i'r ystadegau iechyd hyn, a'u gwella. Mae'r fframwaith yn arwain y ffordd ac yn ceisio amlinellu'r meysydd hanfodol i GIG Cymru roi sylw iddynt, ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant:

**The 7 wellbeing goals are:**

- a prosperous Wales.
- a resilient Wales.
- a healthier Wales.
- a more equal Wales.
- a Wales of cohesive communities.
- a Wales of vibrant culture and thriving Welsh language.
- a globally responsible Wales.

Mae'r fframwaith yn hyrwyddo dull gweithredu integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a defnyddio'r pum niwed a'r nodau pedwarplyg a amlinellir yn adran 1.

Os yw camau gweithredu neu ymatebion sefydliadau'r GIG yn arwain at effaith negyddol, byddai disgwyl i'r cynlluniau a gynhyrchir dynnu sylw atynt a dangos y camau lliniaru.

Mae'r fframwaith yn adlewyrchu'r saith nod llesiant ac yn canolbwyntio'n benodol ar greu Cymru iachach.

**8.4 Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd effaith y fframwaith yn cael ei monitro drwy gynhyrchu'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a gyflwynir gan fyrddau iechyd a sefydliadau eraill erbyn misoedd cyntaf 2022. Bydd y Cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u hasesu cyn eu cyflwyno i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud ei benderfyniad terfynol ar ba gynlluniau sy'n cael eu cymeradwyo.

Bydd y Cynlluniau'n cael eu monitro gan ddefnyddio'r amrywiol ddulliau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol y Tîm Gweithredol ar y Cyd sy'n cael eu cadeirio gan Brif Weithredwr GIG Cymru, y cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni integredig, a'r trefniadau anffurfiol sydd dan arweiniad arweinydd polisi pob Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ei drafodaethau ei hun.